**Tasg 1**

# Bendigeidfran, Llywelyn ac Iolo!

**ATEBION:**

1. Beth oedd enw chwaer Bendigeidfran?
   **Branwen.**
3. Claddwyd pen Bendigeidfran mewn lle o'r enw Gwynfryn yn Llundain. Beth sydd yno heddiw?
   **Tŵr Llundain.**
4. Ym mha chwedl y cewch chi hanes Bendigeidfran yn llawn?
   **Branwen ferch Llŷr.**
5. Beth yw'r ddau enw rydyn ni'n eu defnyddio wrth sôn am Llywelyn, tywysog olaf Cymru?
   **Llywelyn ein Llyw Olaf, a Llywelyn ap Gruffudd.**
6. Ym mha flwyddyn y cafodd Llywelyn ei gydnabod yn dywysog Cymru?
   **1258.**
7. Ym mha flwyddyn ac ym mhle y lladdwyd Llywelyn?
   **1282 yng Nghilmeri.**
8. Beth mae'r gair "concro" yn ei olygu?
   **Trechu'r rhai sy'n rheoli a byw yn y wlad ac yna ei hawlio.**
9. Beth oedd enw brenin Lloegr oedd yn gyfrifol am farwolaeth Llywelyn ac am goncro Cymru?
   **Edward 1.**
10. Beth ddigwyddodd i ben Llywelyn?
   **Cafodd ei arddangos ar strydoedd Llundain, yna'i osod ar bigyn haearn wrth ymyl Tŵr Llundain.**
11. Allwch chi egluro'r gwahaniaeth rhwng "Cymru" a "Cymry"?
   **"Cymru" yw'r wlad, y "Cymry" yw'r bobl.**
12. Ym mha flwyddyn y ganwyd Iolo Morganwg?
   **1747.**
13. Beth yw ystyr y gair "ymddiddori"?
   **Pan mae gen ti ddiddordeb yn rhywbeth.**

14. Mewn beth yr oedd Iolo Morganwg yn ymddiddori?
**Hanes, llawysgrifau a llenyddiaeth.**
15. Beth sefydlodd Iolo Morganwg yn 1792?
**Gorsedd y Beirdd.**
16. Ym mhle y digwyddodd hyn?
**Bryn y Briallu yn Llundain.**

GWYBODAETH BELLACH:

17. Beth oedd enw brawd arall Branwen, yr un wnaeth dorri gwefusau a chlustiau ceffylau Matholwch i ffwrdd?
**Efnisien.**
18. Beth oedd enw plentyn Branwen, a beth ddigwyddodd iddo?
**Gwern. Cafodd ei daflu i'r tân.**
19. Beth oedd enw dau frawd Llywelyn ap Gruffudd (Llywelyn ein Llyw Olaf)?
**Dafydd ac Owain.**
20. Beth wnaeth Llywelyn yn 1255?
**Brwydro yn erbyn Dafydd ac Owain i hawlio eu rhannau nhw o Wynedd er mwyn datgan ei hun yn arweinydd Gwynedd gyfan ac Uwch Conwy.**
21. Beth oedd enw iawn Iolo Morganwg?
**Edward Williams.**
22. Beth yw enw llawn Gorsedd y Beirdd?
**Gorsedd Beirdd Ynysoedd Prydain.**